**Atodiad 4a**

# Herio Gwasanaethau

Pob blwyddyn rydym ni'n herio gwasanaethau o ran eu perfformiad. I gefnogi'r drafodaeth hon gofynnwn i wasanaethau ddechrau paratoi eu gwaith papur tri mis cyn y cyfarfod. I sicrhau ein bod ni'n canolbwyntio ar y pethau pwysicaf, mae yna gyfyngiadau o ran beth y dylid ei gyflwyno. Fel rheol bydd gwasanaeth yn cynnal hunanasesiad ac yn diweddaru eu cofrestr risg. Yn gorfforaethol fe gynhyrchir adroddiad perfformiad ar gynllun y gwasanaeth, adroddiad perfformiad cymharol, adroddiad ar yr anghenion a'r galw ac adroddiad perfformiad busnes. Mae cynnydd camau gweithredu'r broses herio ddiwethaf hefyd wedi'u cynnwys ond, os ydynt yn gamau gweithredu tymor hir, byddant fel rheol yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Perfformiad Cynllun y Gwasanaeth.

Fis cyn yr herio ei hun bydd y gwaith papur yn cael ei gyflwyno a'i gylchredeg. Yn fuan wedi hynny, bydd panel herio yn cyfarfod am awr i gytuno ar drywydd ymholi – y prif feysydd trafod a fydd yn destun y cwestiynau a fydd yn cael eu gofyn. Fel rheol bydd y panel yn cynnwys Aelodau Cyswllt Gwasanaeth pob pwyllgor archwilio (Cymunedau, Partneriaethau a Pherfformiad), Aelodau Arweiniol perthnasol ac Aelod Arweiniol y Cabinet dros Berfformiad, Swyddog Perfformiad Arweiniol Swyddfa Archwilio Cymru (a chynrychiolwyr rheoleiddio eraill lle bo'n briodol), yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Prif Weithredwr (a fydd yn cadeirio'r panel). Gwahoddir yr Arweinydd a'r Swyddog Adran 151 i'r cyfarfod hwn hefyd. Nid yw'r Pennaeth Gwasanaeth yn mynychu'r cyfarfod hwn.

Unwaith y cytunir ar y trywydd ymholi bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn cael gwybod am y trywyddau (ynghyd ag ychydig o wybodaeth am y cwestiynau a fydd yn cael eu gofyn). Bydd y gwaith papur yn cael ei ddiweddaru am y tro olaf ac yn cael ei gylchredeg eto. Oddeutu pythefnos wedi hynny bydd yr herio ei hun yn cael ei gynnal (bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn bresennol y tro hwn). Dim ond y camau gweithredu a fydd yn cael eu cofnodi. Caiff y rhain eu rhannu â'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Prif Weithredwr ar gyfer

cymeradwyaeth, yna byddant yn cael eu cadw yn Verto gyda'r papurau ac yn cael eu hychwanegu at y Cynllun Gwasanaeth er mwyn adrodd arnynt pob chwarter.

# Rhaglen Herio Gwasanaethau 2017-18

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyflwyno Gwaith Papur (mis cynt) | Cyfarfod "Trywydd Ymholi" (pythefnos cynt) | Cyhoeddi Papurau'r Cyfarfod (wythnos gynt) | Cyfarfod Herio |
|---|---|---|---|---|
| **Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata** | 17 Awst | 13 Medi<br>12pm–1pm | 18 Medi | 25 Medi<br>1pm–4pm |
| **Gwella Busnes a Moderneiddio** | 29 Medi | 17 Hydref<br>3pm–4pm | 19 Hydref | 26 Hydref<br>2pm–5pm |
| **Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** | 20 Hydref | 14 Tachwedd<br>11am–12pm | 16 Tachwedd | 23 Tachwedd<br>9.30am–12.30pm |
| **Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** | 13 Tachwedd | 28 Tachwedd<br>3pm–4pm | 6 Rhagfyr | 13 Rhagfyr<br>2pm–5pm |
| **Cyfleusterau, Asedau a Thai** | 15 Rhagfyr | 11 Ionawr<br>2pm–3pm | 16 Ionawr | 25 Ionawr<br>2pm–5pm |
| **Addysg a Gwasanaethau Plant** | 26 Ionawr | 13 Chwefror<br>2pm–3pm | 20 Chwefror | 27 Chwefror<br>2pm–5pm |
| **Cyllid** | 22 Chwefror | 8 Mawrth<br>2pm–3pm | 15 Mawrth | 22 Mawrth<br>2pm–5pm |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** | 22 Mawrth | 10 Ebrill<br>2pm–3pm | 17 Ebrill | 24 Ebrill<br>2pm–5pm |
| **Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** | 27 Ebrill | 15 Mai | 17 Mai | 24 Mai |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 2pm–3pm | 2pm–5pm |

I dderbyn mwy o wybodaeth am y rhaglen, cysylltwch â'r tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad ar est. 6591.

Diweddarwyd 20/03/2017